UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2026 i 2027

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad


Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, SY23 2EU


Dylid cyflwyno ymatebion erbyn 25 Mai 2025 i:

Y Gangen Llywodraethiant, Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion
Is-adran Seilwaith Addysg, Llywodraethu a Chyllid y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

e-bost: SGOA@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – A ydych chi'n cytuno y bydd dyddiadau tymhorau sydd mor debyg â phosibl i'w gilydd ledled Cymru yn helpu rhieni, gofalwyr, teuluoedd a busnesau i gynllunio?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol:**

| |
|---|
| **Mae nifer o achosion lle bo:**<br>**a) rhieni yn gweithio mewn ysgolion sydd mewn siroedd gwahanol i'w plant**<br>**b) cyplau lle bo un yn gweithio mewn ysgol yn un sir a'r llall yn gweithio mewn ysgol mewn sir arall** |

| |
|---|
| **c) brodyr a chwiorydd mewn ysgolion sydd mewn siroedd gwahanol (e.e. ysgol gynradd mewn un sir ac ysgol uwchradd mewn sir wahanol)**<br>**O'r herwydd byddai cael gwyliau ysgol sy'n amrywio o sir i sir yng Nghymru yn creu sefyllfaoedd anodd a lletchwith i deuluoedd.** |

**Cwestiwn 2** – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion o ran dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2026 i 2027 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol:**

| |
|---|
| **Rydym yn cytuno â chael gwyliau sy'n cyfateb o sir i sir ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae Powys ychydig yn wahanol i'r siroedd eraill. Pam na ellid cysoni hyd yn oed ymhellach a sicrhau fod pob sir yr union yr un fath?**<br><br>**Mae'r Sioe Fawr yn ddigwyddiad pwysig i ddisgyblion ac athrawon mewn siroedd eraill hefyd. Mae perygl y bydd lefel absenoldeb yn uchel mewn siroedd eraill, os bydd y tymor yn cynnwys dyddiau ysgol yn ystod wythnos y Sioe.**<br><br>**Ar y llaw arall, mae Powys yn parhau yn yr ysgol tan 22 Rhagfyr, 2026. Gallai hyn fod yn lletchwith i rai teuluoedd a rhai aelodau o staff sydd am wneud trefniadau penodol dros y Nadolig.**<br><br>**Nid oes ateb hawdd ac mae manteision ac anfanteision i ddyddiadau Grŵp A a dyddiadau Grŵp B a dyddiadau Powys. Mae Grŵp A yn rhannu'r flwyddyn fel a ganlyn – 7 wythnos 4 diwrnod, 7 wythnos, 5 wythnos, 5 wythnos, 8 wythnos a 6 wythnos a 2 ddiwrnod. Byddai mabwysiadu tymhorau Grŵp B yn rhoi mwy o gydbwysedd – 7 wythnos a 4 diwrnod, 7 wythnos, 6 wythnos, 5 wythnos, 7 wythnos a 6 wythnos a 3 diwrnod. (Mae tymhorau Powys yn 7 wythnos a 4 diwrnod, 7 wythnos a 2 ddiwrnod, 5 wythnos, 5 wythnos, 8 wythnos a 6 wythnos).**<br><br>**Byddai'n hwyluso pethau i bawb pe bai pob sir yng Nghymru yn cael gwyliau yr union yr un pryd.** |

**Cwestiwn 3** – A oes gennych chi unrhyw farn ar effaith bosibl ein cynigion ar hawliau dynol a'r nodweddion gwarchodedig:

a) oedran?
b) ailbennu rhywedd?
c) bod yn briod ar hyn o bryd neu mewn partneriaeth sifil?
d) Bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth?
e) anabledd?
f) hil gan gynnwys lliw croen, cenedligrwydd neu darddiad ethnig neu genedlaethol?
g) crefydd neu gred?

h) rhyw?
i) cyfeiriadedd rhywiol?

Nodwch eich sylwadau yma:

**Fel y nodwyd uchod – Cwestiwn 1, byddai cael gwyliau gwahanol o sir i sir yn creu problemau i gyplau priod/partneriaeth sifil sy'n gweithio mewn siroedd gwahanol. Byddai'n golygu costau gofal plant, yn creu cymhlethdodau o ran trefnu gwyliau teuluol (yn wir mae perygl y byddai plant yn colli ysgol, er mwyn gallu mynd ar wyliau teuluol).**

**Er bod ysgolion ffydd wedi nodi yn y gorffennol eu bod yn dymuno cael disgyblion yn yr ysgol yn ystod yr wythnos sy'n arwain at y Pasg, gellid dadlau bod cael gwyliau yn ystod yr wythnos honno yn rhyddhau dysgwyr i fynychu unrhyw weithgareddau sy'n cael eu cynnal gan eglwysi a chymunedau Cristnogol mewn perthynas â'u ffydd.**

**Cwestiwn 4** – A oes unrhyw gostau, buddion neu risgiau eraill yn gysylltiedig â'r cynnig?

Nodwch eich sylwadau yma:

**Mae'n siŵr bod manteision ac anfanteision i'r naill gynnig neu'r llall i rai unigolion, ond tybiwn fod mwy o fanteision i fwyafrif o bobl drwy gysoni'r gwyliau.**

**Cwestiwn 5** –
Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol:**

**Mae nifer o ddisgyblion mewn cymunedau amaethyddol yn cymryd rhan mewn cystadlaethau a drefnir gan Glybiau Ffermwyr Ifanc – fel rheol mae'r rhain yn**

**hyrwyddo ac yn hybu'r iaith Gymraeg. Dylid rhoi ystyriaeth i hyn wrth bennu dyddiadau tymhorau/gwyliau.**

**Cwestiwn 6** – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r cynigion er mwyn sirchau:

- eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- nad ydynt yn cael effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol:**

**Gweler yr ymateb i'r cwestiwn blaenorol**

**Cwestiwn 7 –** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

**Wrth nodi dyddiadau gwyliau (ac yn enwedig mewn dogfennaeth sydd yn gysylltiedig ag ymgynghoriad), byddai'n fuddiol pe bai'r ddogfennaeth yn nodi pa mor hir yw'r tymhorau e.e**

**TYMOR YR HYDREF**
**Hanner cyntaf y tymor**
**Dydd Mawrth 1 Medi 2026 – Dydd Gwener 23 Hydref 2026 (7 wythnos a 4 diwrnod)**
**Gwyliau hanner tymor yr hydref**
**Dydd Llun 26 Hydref 2026 - Dydd Gwener 30 Hydref 2026 (1 wythnos)**
**Ail hanner y tymor**
**Dydd Llun 2 Tachwedd 2026 – Dydd Gwener 18 Rhagfyr 2026 (7 wythnos)**
**(Bydd ysgolion Powys ar agor tan ddydd Mawrth 22 Rhagfyr 2026, felly 7 wythnos a 2 ddiwrnod)**
**TYMOR Y GWANWYN**
**Hanner cyntaf y tymor**
**Dydd Llun 4 Ionawr 2027-Dydd Gwener 5 Chwefror 2027 (5 wythnos)**
**Gwyliau hanner tymor y gwanwyn**
**Dydd Llun 8 Chwefror 2027 - Dydd Gwener 12 Chwefror 2027 (1 wythnos)**
**Ail hanner y tymor**
**Dydd Llun 15 Chwefror 2027 – Dydd Gwener 19 Mawrth (5 wythnos)**
**TYMOR YR HAF**
**Hanner cyntaf y tymor**
**Dydd Llun 5 Ebrill – Dydd Gwener 28 Mai 2026 – (8 wythnos)**
**Gwyliau hanner tymor yr haf**
**Dydd Llun 31 Mai – Dydd Gwener 4 Mehefin 2027 (1 wythnos)**
**Ail hanner y tymor**
**Dydd Llun 7 Mehefin – Dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2027 (6 wythnos a 2 ddiwrnod)**
**Ysgolion Powys**
**Dydd Llun 7 Mehefin – Dydd Gwener 16 Gorffennaf 2027 (6 wythnos)**

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐